

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd
Dydd Mawrth 14 Ebrill 2026, 2pm-4pm
Llys y Goetre (Cynllun Datblygu Tai gyda Gofal)



<u>Yn bresennol</u> Aelodau'r Bwrdd: Y Cyngorydd Huw Thomas (Cadeirydd) Kirsty Williams Emma Cooke Paul Orders Sarah McGill David Letellier Fin Monahan Gareth Evans Martyn Stone Cerys Milltir Sheila Hendrickson-Brown Michael Kay Ymddiheuriadau: Suzanne Rankin Claire Beynon Marc Atwell Emma Wools Kate Fitzgerald Hefyd yn bresennol: Gareth Newell Claire Deguara Helen Evans Louise Bassett Claire Gilhooly Huw Parry-Evans Huw Davies Emma Davies-McIntosh Liam Hull	Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC) Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP C&F) Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (GPPIau), Gwyddorau Iechyd a Datblygu Gwasanaethau Cymunedol, BIPCaF Prif Weithredwr, CC Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC Pennaeth Gweithrediadau Canol y De, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) Rheolwr Grŵp Caerdydd a Chaerffili, GTADC Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru (HDC) Cyfarwyddwr Cymunedau, Partneriaethau ac Atal, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau (SCHTh) Prif Swyddog Gweithredol, Cyngor Trydydd Sector Caerdydd Dirprwy Gyfarwyddwr Etholiadau, Llywodraeth Leol a Chynllunio, Llywodraeth Cymru (LIC) Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro Prif Uwch-arolygydd, HDC Comisiynydd Heddlu a Throseddau (CHTh) De Cymru Pennaeth Uned Gyflenwi Prawf (UGP) y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC) Cyfarwyddwr Strategaeth, Partneriaethau a Thrawsnewid, CC Rheolwr Busnes y Cabinet, CC Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tai, CC Cyfarwyddwr Cynorthwyol Oedolion, CC Rheolwr Gwasanaethau Byw'n Annibynnol, CC Gwasanaethau Byw'n Annibynnol, Rheolwr Ymateb Cynorthwyol, CC Arweinydd Strategol y Gwasanaeth Byw yn Dda, BIPCaF Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro Cyfarwyddwr Cyllid, GTADC
--	---

Rhif	Eitem Agenda	
1.	Croeso / Ymddiheuriadau Agorodd y Cynghorydd Thomas y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod. Rhoddodd y Cynghorydd Thomas wybod i'r Bwrdd fod Paul Orders wedi cyhoeddi y bydd yn ymddiswyddo o'i rôl fel Prif Weithredwr yng Nghyngor Caerdydd. Diolchodd y Cynghorydd Thomas i Paul am ei gyfraniad sylweddol i waith y BGC.	
2.	Cofnodion a Chamau Gweithredu Nododd y Cynghorydd Thomas fod y camau gweithredu yng nghofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2026 wedi'u cwblhau. Mewn perthynas â Chydweithrediad Strategol Prifysgol Caerdydd a BGC Caerdydd, rhoddodd Gareth Newell y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd. Nododd fod gweithgarwch parhaus ar draws y rhaglen, gyda ffocws penodol ar wyddor data. Mae hyn yn cynnwys gwaith i ymgysylltu â myfyrwyr ôl-raddedig ac israddedig i fynd i'r afael â heriau gwasanaeth cyhoeddus. Cytunodd y BGC i gymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2026.	
3.	Darparu Dull Newydd o Ofal yn y Gymuned Derbyniodd y BGC gyflwyniad yn amlinellu newid arfaethedig tuag at fodel ataliol o ofal cymunedol i bobl hŷn, wedi'i gefnogi gan ddatblygiadau tai newydd a newidiadau system-gyfan. Roedd pwyntiau allweddol o'r cyflwyniad yn cynnwys: • Ehangu tai arbenigol: Cynlluniau i ddarparu 12 cynllun newydd (620 o fflatiau) wedi'u cynllunio i gefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol am gyfnod hirach, lleihau dibyniaeth ar ofal cartref a phreswyl, a lleddfu'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. • Model tai gyda gofal newydd: Cyflwyno cynlluniau integredig (e.e. Llys y Goetre) sy'n cyfuno llety â gofal ar y safle a darpariaeth iechyd, ochr yn ochr â phorth amlddisgyblaethol newydd i gefnogi lleoliadau priodol a chost-effeithiol. • Cyflwyno cynnar cadarnhaol: Mae datblygiadau diweddar (e.e. Heol Lecwydd) yn dangos manteision gan gynnwys canfod maint cywir, cyfleusterau cymunedol, a chymorth gofal wedi'i deilwra.	

Rhif	Eitem Agenda	
	• Pwysau System: Mae cwympiadau ymhlith pobl hŷn yn her sylweddol a chynyddol, gan gyfrannu at golli annibyniaeth, mwy o dderbyniadau i'r ysbyty, a chostau system cynyddol. • Cyfyngiadau'r model cyfredol: Er bod gwasanaethau ymateb brys ac adsefydlu yn gryf, mae'r system yn parhau i fod yn adweithiol i raddau helaeth, heb ffocws digonol ar atal. • Newid strategol arfaethedig: Symud o ymateb i ddigwyddiadau i ragweld ac atal risg, gydag atal fel y dull diodyn. • Model atal a arweinir gan gymdogaeth: - Defnyddio proffilio risg (gan gynnwys data Gweithgareddau Bywyd Beunyddiol) i nodi unigolion sydd â risg uwch yn gynharach. - Cyflwyno ymyriadau ataliol (e.e. rhaglenni cryfder, cydbwysedd a lles) trwy ddulliau cymunedol. - Cyflwyno offer cymorth penderfyniadau a rennir i alluogi ymatebion cyson, seiliedig ar dystiolaeth ar draws gwasanaethau. • Dull cymorth parhaus: "Edau" cydgysylltiedig o gymorth ar draws gwasanaethau tai, teleofal, iechyd a gofal cymdeithasol, wedi'i drefnu ar lefel cymdogaeth ac wedi'i deilwra i anghenion sy'n newid. Nodwyd mai'r nod cyffredinol yw gwella canlyniadau ac annibyniaeth i breswylwyr, lleihau'r galw y gellir ei osgoi ar wasanaethau aciwt, a chefnogi system fwy cynaliadwy ac ariannol hyfyw, gydag ymrwymiad i brofi a graddio'r dull. Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r BGC: • Amlygodd y Cynghorydd Thomas heriau mewn perthynas â chasglu data. Nododd Gareth Newell bwysigrwydd sicrhau bod trefniadau llywodraethu gwybodaeth ar waith o'r cychwyn cyntaf. • Tynnodd Kirsty Williams sylw at bwysigrwydd adnabod unigolion a allai fod mewn perygl ond nad ydynt yn hysbys i wasanaethau ar hyn o bryd, gan nodi y byddai dull a arweinir gan ddata yn cefnogi hyn. • Nododd y Cynghorydd Thomas y gallai unigolion nad ydynt yn ymwneud â gwasanaethau meddygon teulu ar hyn o bryd gael eu colli. Cynghorodd Huw Davies y gallai diagnosisau a gofnodwyd yng nghofnodion meddygon teulu helpu i adnabod. • Tynnodd Sheila Hendrickson-Brown sylw at y risg uwch o gwmpo ymhlith unigolion sydd â ffyrdd o fyw mwy eisteddog. Nododd Claire Gilhooly gyfleoedd i integreiddio'r rhaglen "Byw'n Dda" o fewn y model hwn i gefnogi'r unigolion hynny.	

Rhif	Eitem Agenda	
	Nodwyd bod y camau nesaf yn cynnwys archwilio Llaneirwg fel maes peilot posibl ac ymgymryd â gwaith pellach i ddeall gofynion mapio data a llywodraethu gwybodaeth. Cytunodd y BGC i nodi'r dull arfaethedig o ymdrin â gofal cymunedol a'r cyfeiriad teithio. Cam Gweithredu: Dylid ystyried ble y dylai llywodraethu ar gyfer y rhaglen gofal cymunedol fod (BGC neu BPRh), gydag adborth i'w ddwyn i gyfarfod BGC neu BPRh yn y dyfodol.	Cath Doman/ Gareth Newell
4.	Y Diweddaraaf am Frechu Derbyniodd y BGC ddiweddariad ar y defnydd o imiwneiddio yn ystod plentyndod ac yn yr arddegau ledled Caerdydd a'r Fro. Roedd pwyntiau allweddol o'r cyflwyniad yn cynnwys: - Cyd-destun cyffredinol: Mae brechiadau yn parhau i fod yn ymyrraeth iechyd cyhoeddus hanfodol, gan atal marwolaethau sylweddol yn fyd-eang. Fodd bynnag, mae'r defnydd wedi stopio a gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gydag anghydraddoldebau yn ehangu yn gysylltiedig ag amddifadedd ac ethnigrwydd. - Perfformiad lleol: Caerdydd a'r Fro sydd â'r nifer isaf o imiwneiddio plant yng Nghymru, gydag amrywiaeth sylweddol ar draws y ddinas a llai o ddefnydd mewn cymunedau mwy difreintiedig. - Risg o'r frech goch: Mae'r brechlyn MMR yn parhau i fod yn is na'r lefelau gorau posibl mewn rhai ardaloedd, gan gynyddu'r risg o achosion. - Roedd 86% o blant 5 oed wedi derbyn y ddau ddos MMR (Hydref–Rhagfyr 2025), gydag amrywiad sylweddol rhwng ardaloedd. - Mae modelu yn nodi 17 o ardaloedd mewn perygl yng Nghaerdydd, a'r risg uchaf ymhlith pobl ifanc 11-24 oed. - Effaith y frech goch: Mae'r frech goch yn heintus iawn, gall arwain at gymhlethdodau difrifol, a gall arwain at darfu sylweddol, gan gynnwys gofynion ynysu ar gyfer cysylltiadau heb eu brechu. - Ymateb ac ymyriadau cyfredol: - Rhaglenni dal i fyny MMR wedi'u targedu mewn ysgolion uwchradd, gan ganolbwyntio ar ysgolion risg uwch, gyda chyfathrebiadau wedi'u cyfieithu a chymorth bugeiliol i wella cyfraddau cydsynio. - Cydnabod bod ymgysylltu rhagweithiol mewn ysgolion a chyfathrebu wedi'u teilwra yn allweddol i wella'r defnydd.	

Rhif	Eitem Agenda	
	- Mae camau ehangach yn cynnwys gwella mynediad trwy glinigau cymunedol ac ysgolion, ymgyrchoedd cyfathrebu wedi'u targedu, a chryfhau systemau data. • Dull strategol: - Datblygu Cynllun Gweithredu Strategol Imiwneiddiadau yn Ystod Plentyndod a'r Arddedau (2026-2029), gan ganolbwyntio ar: ▪ Gwella mynediad teg at frechu ▪ Cryfhau ymgysylltiad cymunedol a hyder mewn brechlynnau ▪ Gwella data a deallusrwydd i dargedu ymyriadau - Mae'r dull yn seiliedig ar bartneriaeth, wedi'i arwain gan dystiolaeth, wedi'i lywio gan ymddygiad, ac yn canolbwyntio ar y gymuned, gyda llywodraethu yn gysylltiedig â'r agenda atal. Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r BGC: • Cwestiynodd y Cyngorydd Thomas y rhesymau sylfaenol dros ddefnydd isel, gan gynnwys a yw hyn yn ymwneud â mynediad neu deimlo'n ansicr o ran brechu. Tynnodd Emma Davies-McIntosh sylw at ystod o ffactorau sy'n cyfrannu, gan gynnwys problemau mynediad mewn meddygfeydd meddygon teulu, negeseuon gwrth-frechu, a diffyg ymddiriedaeth. • Gofynnodd y Cyngorydd Thomas sut y gellir mynd i'r afael â'r heriau hyn. Nododd Kirsty Davies y gallai mewnwelediadau ymddygiadol a dulliau 'annog' gefnogi gwell defnydd, gan gynnwys tynnu sylw at y tarfu sy'n gysylltiedig â haint. • Pwysleisiodd Paul Orders rôl arweinwyr ysgolion wrth gefnogi derbyn brechiadau. Cytunodd y BGC nodi'r angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau wrth dderbyn brechiadau a chryfhau gweithgarwch atal, yn enwedig mewn perthynas â'r frech goch, er mwyn lleihau'r risg o achosion a gwella canlyniadau iechyd y boblogaeth.	
5.	Cynllunio Rheoli Risg Cymunedol - Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru Derbyniodd y BGC gyflwyniad ar ddatblygu Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC). Roedd pwyntiau allweddol o'r cyflwyniad yn cynnwys: • Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yn datblygu ei Gynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) yn ystod 2026, gyda'r nod o nodi, rheoli a lleihau risg a bregusrwydd ar draws cymunedau.	

Rhif	Eitem Agenda	
	• Mae'r CRhRC yn ofyniad statudol o dan Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol Cymru ac mae'n cefnogi cyflwyno deddfwriaeth ehangach, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. • Mae'r dull yn canolbwyntio ar nodi risg (pwy, beth, ble a phryd) ac yn nodi sut y bydd risgiau yn cael eu lliniaru trwy weithgareddau atal, amddiffyn ac ymateb, ochr yn ochr â gwerthuso effeithiolrwydd. • Bydd datblygu'r CRhRC yn cynnwys ymgynghori ac ymgysylltu â chyflogaion, y cyhoedd a sefydliadau partner, gan dynnu sylw at bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol. • Disgwylir i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid gyfrannu yn ystod 2026, gan gynnwys: - Llywio'r cynllun a'i effaith ar wasanaethau lleol - Alinio â'u cylchoedd cynllunio strategol eu hunain - Nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio i gyflawni canlyniadau a rennir • Mae'r CRhRC yn rhoi cyfleoedd i bartneriaid ddylanwadu ar flaenoriaethau risg a llunio sut mae GTADC yn defnyddio adnoddau trwy ei fodel darparu gwasanaethau. • Mae cerrig milltir allweddol ar gyfer 2026 yn cynnwys asesu risg, datblygu proffiliau risg lleol, adolygiad o amddiffyniad tân, cymeradwyo cynllun drafft, a gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Codwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau'r BGC: • Tynnodd Fin Monahan sylw at bwysigrwydd y darn eang hwn o waith wrth gefnogi GTADC i gynllunio ar draws ystod eang o risgiau, gan gynnwys terfysgaeth, digwyddiadau cemegol a niwclear, diheintio torfol, a chwilio ac achub trefol. • Cyfeiriodd Emma Davies-McIntosh at bwysigrwydd mewnbwn diogelu iechyd. Cadarnhaodd Fin Monahan fod hyn yn bwysig, gan dynnu sylw at enghreifftiau fel achub bariatreg a chwympiadau. Cytunodd y BGC i wneud y canlynol: • Nodi'r ddatblygiad Cynllun Rheoli Risg Cymunedol GTADC a'i arwyddocâd strategol. • Ymrwmo i ymgysylltu'n rhagweithiol â GTADC yn ystod cyfnod ymgysylltu Mai-Mehefin 2026 a'r ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. • Ystyried darparu pwynt cyswllt arweiniol ym mhob sefydliad i gyfrannu mewnwelediad, data a safbwyntiau i'r broses CRhRC. • Ystyried sut mae'r CRhRC yn cyd-fynd â chylchoedd strategol sefydliadol a blaenoriaethau partneriaeth. • Cefnogi cyfleoedd ar gyfer cydweithio lle mae ffactorau risg a bregusrwydd a rennir yn bodoli.	

Rhif	Eitem Agenda	
	Camau Gweithredu: - Sefydliadau BGC i enwebu pwynt cyswllt gan eu priod sefydliadau. - Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd mewn cyfarfod BGC yn y dyfodol.	PAWB Ysgrifenyddiaeth y BGC
6.	Caerdydd yn Fabwysiadwr Cynnar Cenedl Marmot: Diweddaru Derbyniodd y BGC ddiweddariad ar gynnig Mabwysiadwr Cynnar Cenedl Marmot Caerdydd. Nodwyd, er na chafodd Cyngor Caerdydd ei ddewis fel arloeswr cenedlaethol, ei fod wedi'i gadarnhau fel 'mabwysiadwr cynnar' ac wedi sicrhau £33k dros ddwy flynedd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu dull ataliol a arweinir gan ddata o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc 5-11 oed ar 'ffiniau gofal', yn enwedig yn Nhrelái a Chaerau. Mae hyn yn adlewyrchu nifer cynyddol o blant sy'n mynd i mewn i ofal, cymhlethdod a chostau gwasanaeth cynyddol, a'r cysylltiadau cryf rhwng amddifadedd, tlodi plant a mynediad i ofal. Roedd pwyntiau allweddol o'r cyflwyniad yn cynnwys: - Cynnydd o fewn y cyfnod darganfod, gan gynnwys datblygu 'golwg cyfun ar blentyn' i integreiddio data ar draws gwasanaethau, nodi ffactorau risg a gwella dealltwriaeth system. - Mapio darpariaeth bresennol a theithiau defnyddwyr i ddeall llwybrau cyfredol a bylchau mewn cymorth yn well. - Bydd y cam nesaf yn cynnwys cyd-ddylunio modelau cymorth ataliol amlasiantaethol, gan gynnwys rolau gweithwyr allweddol a gwasanaethau cymunedol mwy cydgysylltiedig. - Bydd y rhaglen yn cael ei goruchwyllo gan y BGC fel rhan o'r dull Cyfanswm Lle, gyda'r cyflwyniad yn cael ei arwain gan Gyngor Caerdydd mewn partneriaeth â phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus a gyda chefnogaeth academiaidd. - Bydd cynllun prosiect manwl yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2026. Cytunodd y BGC i nodi'r diweddariad ar gynnig Mabwysiadwr Cynnar Cenedl Marmot Caerdydd.	

Rhif	Eitem Agenda	
7.	Diweddariad ar Ddiogelwch Cymunedol a Diogelu <u>Diogelwch Cymunedol</u> Codwyd un mater ar gyfer uwchgyfeirio i'r BGC mewn perthynas ag effaith gronno1 twf cyflym Caerdydd ar wasanaethau cyhoeddus. Nodwyd y bydd hyn yn cael ei godi fel rhan o'r ymateb i'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol, gyda'r mater yn cael ei ddwyn yn ôl i gyfarfod PSB yn y dyfodol i'w drafod os oes angen. Cylchredwyd adroddiad Ch4 y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol er gwybodaeth. <u>Diogelu</u> Cylchredwyd adroddiad Diogelu Ch4 er gwybodaeth.	
8.	Unrhyw Fater Arall <u>Asesiad o Les Lleol 2027</u> Ystyriodd y BGC bapur sy'n nodi'r dull arfaethedig o baratoi Asesiad o Les Lleol nesaf Caerdydd, y mae'n ofynnol ei gyhoeddi erbyn mis Mai 2027. Mae'r asesiad yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a bydd yn darparu dadansoddiad cynhwysfawr o les economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ledled y ddinas, gan gynnwys mewnwelediadau ar lefel gymunedol, tueddiadau'r dyfodol ac aliniad â dangosyddion cenedlaethol. Bydd yn ffurfio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Lles Lleol nesaf, sydd i'w gyhoeddi erbyn mis Mai 2028. Cynghorwyd y Bwrdd bod disgwyl canllawiau diweddarau Llywodraeth Cymru ar asesiadau lles. Mae hyn yn debygol o hyrwyddo dull mwy symlach a chymesur, aliniad cryfach ag asesiadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a mwy o bwyslais ar fewnwelediad a dehongli yn hytrach na chyflwyno data helaeth. Er nad yw asesiadau ar y cyd yn cael eu cynnig oherwydd rolau statudol a daearyddiaeth wahanol, bydd swyddogion yn parhau i gydlynw i sicrhau cysondeb tystiolaeth a naratif. Cynigir strwythur symlach ar gyfer asesiad 2027, gan gadw'r elfennau "Caerdydd Heddiw" a "Caerdydd Yfory", gyda ffocws cryfach ar faterion partneriaeth hirdymor a thrawsbynciol allweddol. Mae gwaith cynnar ar y gweill, gan gynnwys adolygiad o'r set ddangosyddion presennol i sicrhau perthnasedd, mynd i'r afael â bylchau yn y sylfaen dystiolaeth ac ymgorffori ymchwil leol. Bydd amserlen fanwl yn cael ei chwblhau ar ôl cyhoeddi canllawiau Llywodraeth Cymru. Cytunodd y BGC i wneud y canlynol: • Cymeradwyo'r dull a gynigir o ran datblygu'r Asesiad o Les Lleol	

Rhif	Eitem Agenda	
	Sylwch y bydd mireinio pellach yn dilyn rhyddhau canllawiau Llywodraeth Cymru. Gwahoddwyd aelodau y BGC i adolygu'r dull gweithredu ac i gysylltu â Gareth Newell gydag unrhyw sylwadau neu bryderon.	
	Dyddiad y Cyfarfod Nesaf Dydd Llun 20 Gorffennaf 2026 (10am-12pm)	